Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

MetCaerdydd CardiffMet 2023 Wythnos groeso Welcome *week*

*Israddedig*

# Llawlyfr

## BSc (Anrh) Gwyddorau Biofeddygol gydag Iechyd, Ymarfer Corff a Maeth

Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 2 |
| **Gwybodaeth Hanfodol** | 3 |
| **Cwrdd â'r Tîm** | 5 |
| **Wythnos Groeso** | 6 |
| **Gwybodaeth Ddefnyddiol** | 10 |

# Cyflwyniad

## Croeso i Brifysgol Metropolitan Caerdydd

Llongyfarchiadau ar ddechrau eich Taith Met Caerdydd! Rydym wedi llunio cyfres o weithgareddau a digwyddiadau i'ch helpu i ddod i adnabod Met Caerdydd, cysylltu â'ch rhaglen astudio, a chwrdd â staff a myfyrwyr eraill.

Mae'r Wythnos Groeso yn rhoi cyfle i chi ymgartrefu ym Met Caerdydd ac i gymryd rhan yn eich cwrs astudio o'r cychwyn cyntaf. Yn ystod yr Wythnos Groeso byddwch yn cymryd rhan mewn prosiect grŵp a fydd yn rhoi blas i chi o'r hyn y gallwch ei ddisgwyl yn ystod eich astudiaethau ym Met Caerdydd. Byddwch hefyd yn gallu:

1. Cwrdd â'ch Tiwtor Personol, Cyfarwyddwr Rhaglen, a chyd-fyfyrwyr.
2. Mynychu gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol ar y campws.
3. Gweithio ar brosiect grŵp a chyflwyno canfyddiadau yn ôl i dîm y rhaglen.
4. Dod i adnabod campysau Met Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos.
5. Darganfod pa wasanaethau sydd ar gael gennym i'ch cefnogi chi ar eich taith ym Met Caerdydd.

Pan fyddwch yn dod am eich diwrnod cyntaf, byddwch yn cwrdd â'ch Tiwtor Personol a fydd yn darparu cefnogaeth ac arweiniad academaidd yn ystod eich amser astudio ym Met Caerdydd. Byddant hefyd yn rhoi eich cerdyn myfyriwr Met Caerdydd i chi - cyn belled â'ch bod wedi uwchlwytho'ch llun!

Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynychu'r gweithgareddau a gynlluniwyd gan eich rhaglen yn ystod yr Wythnos Groeso, fel eich bod yn barod i ddechrau ar eich taith ym Met Caerdydd.

Yn olaf, rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau eich amser yn astudio ym Met Caerdydd ac edrychaf ymlaen at gwrdd â chi yn ystod yr Wythnos Groeso.

Yr eiddoch yn gywir,
Dr Cathryn Withycombe
Cyfarwyddwr y Rhaglen



# Gwybodaeth Hanfodol



## Manylion y Rhaglen

Mae'r rhaglen BSc (Anrh) Gwyddorau Biofeddygol gydag Iechyd, Ymarfer Corff a Maeth wedi'i hachredu'n broffesiynol gan y Gymdeithas Fioleg Frenhinol (RSB). Bydd yr achrediad yn gwella eich cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol, gan ei fod yn gadarnhad bod y rhaglen yn rhoi'r wybodaeth hanfodol i chi, ac yn datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd a thechnegol. Mae rhagor o wybodaeth am werth achrediad RSB ar gael yma.

Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n elwa o'ch rhaglen astudio ddewisol ac yn ei mwynhau. Cofiwch, serch hynny, mai cymhelliant ac ymdrech yw'r allwedd i lwyddiant ar unrhyw raglen. Bydd staff y Brifysgol yn eich helpu ac yn eich tywys; gall staff y Llyfrgell a Gwasanaethau Gwybodaeth ddarparu cymorth dysgu; gall Gwasanaethau Myfyrwyr roi cymorth i chi gydag amrywiaeth o bethau, fel eich lles emosiynol a chyngor ariannol; gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd eich helpu i baratoi ar gyfer bywyd ar ôl i chi raddio, ond yn y pen draw, chi sy'n gyfrifol am ymrymo eich hun a gweithio'n galed i gyflawni eich potensial academaidd.

## Myfyrwyr Rhan-amser

Er y dylai myfyrwyr llawn amser gymryd rhan ym mhopeth, rydym yn cydnabod efallai na fyddwch yn gallu gwneud popeth oherwydd ymrwymiadau eraill, ac rydym yn deall hyn.

Siaradwch â'ch Tiwtor Personol am ba weithgareddau fydd fwyaf gwerthfawr i chi. Bydd croeso i chi ymuno ym mhob digwyddiad yn ystod yr wythnos, pryd y gallwch. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofrestru, a chwblhau'r gwaith papur gofynnol cyn mynychu unrhyw ddigwyddiadau.

## Myfyrwyr Rhyngwladol

Ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol sy'n dod i'r DU, rydym yn deall bod addasu i ddiwylliant newydd; dod o hyd i rywle addas i fyw a dilyn prosesau a gweithdrefnau newydd yn gallu bod yn eithaf llethol. Mae'r Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr Byd-eang ar gael i gynnig cyngor a chymorth cyfeillgar i bob myfyriwr rhyngwladol mewn perthynas â phryderon lles, sgiliau academaidd a materion mewnfudo. I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, ewch i'r dolenni isod:

### Cymorth Cynghori Myfyrwyr Byd-eang

Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr Byd-eang Cyngor Lles Rhyngwladol

Cyngor Academaidd Rhyngwladol Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr Byd-eang

Cyngor Mewnfudo Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr Byd-eang

### Cysylltiadau Cynghori Myfyrwyr Byd-eang

Cyngor lles — intstudentadvice@cardiffmet.ac.uk

Mae hefyd yn bwysig eich bod yn mynychu'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer eich cwrs yn ystod yr Wythnos Groeso, fel eich bod yn cael cwrdd â'ch Cyfarwyddwyr Rhaglen, Tiwtoriaid, a gweddill eich carfan. Bydd hyn yn eich helpu i ymgartrefu yn eich amgylchedd newydd a gwneud ffrindiau newydd.

# Cwrdd â'r Tîm



| | |
|---|---|
|  | **Cathryn Withycombe** |
|  | **Lee Butcher** |

# Wythnos Groeso




## Beth i'w ddisgwyl

Yn ystod yr wythnos byddwch yn cwblhau prosiect, y byddwch yn ymgymryd ag ef gyda grŵp o fyfyrwyr newydd eraill o'ch rhaglen, gyda chefnogaeth staff a myfyrwyr presennol sydd ar eich rhaglen. Bydd llawer o help hefyd gan y gwasanaethau prifysgol eraill, gan ddangos rhai offer a thechnegau gwych y gallwch eu defnyddio i wneud eich prosiect yn llwyddiant.

Ar ddiwedd yr wythnos, byddwn hefyd yn rhoi adborth i chi ar gryfderau dull eich grŵp, gan rannu a dathlu'r hyn rydyn ni wedi'i ddarganfod gyda'n gilydd.

Bydd cyflwyniad i'ch Ysgol a'ch Rhaglen newydd a llawer o weithgareddau hwyliog i'ch helpu i gwrdd â phobl newydd.

Bydd angen i chi gwblhau ychydig o waith gweinyddol a chysylltu gyda'ch rhaglen er mwyn i ni wybod pwy sy'n gwneud beth, a phryd. Bydd angen i chi hefyd gwblhau unrhyw faterion cofrestru sydd heb eu talu, casglu cardiau Undeb y Myfyrwyr, a chysylltu ag unrhyw wasanaethau cymorth arbenigol sydd eu hangen arnoch.

## Dyma beth wnaeth myfyrwyr Met Caerdydd ei fwynhau am yr Wythnos Groeso

*“Helpodd fi i ymgartrefu a thynnu'r pwysau oddi ar deithio i le newydd”*

*“Roedd y prosiectau grŵp i gael gwybod am ein cyfoedion yn ffordd braf o ddod i adnabod pawb”*

*“Mae'n ddefnyddiol sgwrsio'n anffurfiol â Chyfarwyddwr y Rhaglen a sgwrsio am bethau ar hap i helpu i ymgartrefu”.*



## Gweithgareddau a Phrosiectau'r Rhaglen

Yn ystod yr Wythnos Groeso cewch gyfle i gwblhau prosiect bach i'ch helpu i drosglwyddo i Addysg Uwch a'ch cyflwyno i'ch rhaglen. Bydd tîm y rhaglen yn rhannu briff y prosiect gyda chi ar ddechrau'r wythnos ac yn eich tywys drwy'r broses. Byddwch yn rhannu'r prosiect gyda staff a myfyrwyr eraill ar ddiwedd yr wythnos.

## Ffair y Glas

Ffair y Glas, a drefnir gan Undeb y Myfyrwyr, yw eich cyfle cyntaf i gwrdd â'n holl Gymdeithasau UM, Timau Chwaraeon UM ac wrth gwrs cyfle i gael pob math o bethau am ddim gan ein partneriaid masnachol! Mae'r ffair yn ddigwyddiad trwy'r dydd a gynhelir ddydd Mercher o fewn NIAC ar gampws Cyncoed! Dyma un o uchafbwyntiau calendr y Glas ac un o'r unig adegau yn ystod eich taith prifysgol y bydd pob myfyriwr o holl ysgolion Met Caerdydd yn yr un lle!

Ewch draw i wefan Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, cymdeithasau, cefnogaeth a mwy.

## Gweithgareddau'r Wythnos Groeso (Sylfaen ac Israddedig)

Yn ystod yr Wythnos Groeso, cewch gyfle i:

- Fynychu cyfarfod croeso gyda'ch Cyfarwyddwr Rhaglen a chwrdd â'r tîm, lle byddant yn darparu cyflwyniad ac amlinellu disgwyliadau.
- Cwrdd â myfyrwyr eraill ar eich rhaglen astudio.
  Cwrdd â'ch tiwtor personol.
- Cymryd rhan mewn prosiect Wythnos Groeso gyda myfyrwyr eraill ar eich rhaglen astudio a chyflwyno'r canfyddiadau o'ch prosiect i staff a chyfoedion.
- Ymgyfarwyddo â'r campws.
- Archwiliwch pa wasanaethau sydd ar gael i'ch cefnogi ar eich taith i ddysgwyr.
- Mynychu Ffair y Glas ddydd Mercher.
- Mynychu Sesiwn Ysbrydoledig Cwrdd a Chyfarch eich rhaglen.
- Ymgyfarwyddo â'r offer digidol y disgwylir i chi eu defnyddio yn ystod eich astudiaethau.
- Cymerwch ran mewn sesiwn 'glo', myfyrio ar yr wythnos a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut olwg sydd ar eich amserlen ar gyfer wythnos gyntaf yr addysgu..
- Mynychu digwyddiad dathlu Met Caerdydd brynhawn Gwener.

Noder y byddwch yn dod o hyd i amserlen fanwl ar gyfer eich rhaglen astudio ar safle'r Wythnos Groeso.

# Rhestr Wirio Wythnos Groeso Personol



Yn ystod yr Wythnos Groeso mae angen i chi sicrhau eich bod wedi:

- Cwblhau y broses gofrestru.
- Casglu eich cerdyn adnabod myfyriwr.
- Mynychu sesiwn gweithgareddau'r rhaglen.
- Mynychu rhai digwyddiadau cymdeithasol ar y campws/ar-lein.
- Mynychu Ffair y Glas
- Cwrdd â'ch Tiwtor Personol
- Ymgyfarwyddo â'r llyfrgell ac unrhyw wasanaethau cymorth y gallai fod eu hangen arnoch e.e. cymorth Dyslecsia neu Anabledd

# Gwybodaeth Ddefnyddiol



## Gwybodaeth i Fyfyrwyr Newydd

Mae gan y wefan Gwybodaeth Ymuno â Chwrs lawer o wybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu gyda'ch cynllunio. Dewiswch eich lefel mynediad ar y wefan i gael gwybod mwy a chael mynediad at eich gwybodaeth ymuno bwysig.

## Gwasanaethau Myfyrwyr

Mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn darparu cymorth ac arweiniad, gan gynnwys iechyd meddwl, cymorth anabledd, cyngor gyrfaoedd, gwybodaeth am swyddi rhan-amser a rheoli arian.

## Canllaw Croeso UM

Canllaw rhyngweithiol i'ch helpu i lywio eich taith i mewn i'ch bywyd prifysgol a thrwy gydol eich bywyd prifysgol. Ewch ar y daith a mwynhewch bob adran sydd wedi'i chynllunio i'ch helpu i ddod i adnabod Met Caerdydd.

Beth sydd angen i chi ei wybod cyn i chi fynd

## Calendr Academaidd 2023/24

Calendr Academaidd 2023/2024

# Campws Llandaf




## Allwedd

1. Yr Hyb
2. Campfa (Llawr Cyntaf)
3. Clinig Podiatreg
4. Prif Dderbynfa a Pharth-g
5. Yr Oriel (llawr Cyntaf)
6. Caffi'r Bocs (llawr Cyntaf)
7. Yr Atriwm
8. Desg Gymorth TG (llawr Cyntaf)
9. Y Lolfa Fyd-eang
10. Undeb y Myfyrwyr (llawr Cyntaf)
11. Canolfan Ddysgu

- Llythyren yr adeilad
- Adeilad y Brif Fynedfa
- Parcio
- Beiciau Trydan
- Beiciau OVO
- Rhesel beiciau
- Safe bws
- Caffi
- Ystafell weddi aml-ffydd

Mae ein holl ystafelloedd yn defnyddio'r un fformiwla enwi – *LlawrAdeilad . RhifYstafell.* Felly os ydych chi wedi chwilio am 01.18, ewch i adeilad O, dringo i'r llawr cyntaf, a dod o hyd i ystafell rhif 18. Neu am B0.10 ewch i adeilad B, aros ar y llawr gwaelod a chwilio am ystafell 10. Yn y fformiwla enwi, mae 'LL' yn cyfeirio at Llandaf.